

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Medi 20, 2022 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Meurig Ashton (Cadeirydd), Karen G. Goswell, Gerallt Griffith, Peredur Jenkins a Rhun Prys Jones. Hefyd Cyngorydd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau: Emlyn Roberts, Llion Williams, Barry Jones, Robin Jones.

3. Dewis Swyddogion

Cadeirydd: Meurig Ashton
Is Gadeirydd: Gerallt Griffith

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones
Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith
Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts
Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton
Un Llais Cymru (2): Gerallt Griffith, Meurig Ashton.

4. Datgan diddordeb.

Roedd Gerallt Griffith a Peredur Jenkins yn datgan diddordeb ynglŷn â Neuadd Llanfachreth ond yn bresennol i roi gwybodaeth. Eitem 6, Eitem 12.a.

Roedd Karen G. Goswell yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 9.ch.

5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 19, 2022

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

6. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 19, 2022.

Eitem 7.c. Llythyr ateb (20/7/2022) yn rhoi gwybod bod y mater wedi cael ei anfon ymlaen i Adran Polisi, Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

Llythyr ateb (21/7/2022) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod maent yn adolygu cyflymder traffig ar y cefnffyrdd i wella diogelwch trwy wella ffyrdd neu newid terfynau cyflymder. Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn diweddarau'r

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 20, 2022

canllawiau Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru, i gynnwys cyflwyno terfynau cyflymder 20mya yn genedlaethol bydd yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau, Cyngor Cymuned Llanuwchllyn a Katie Cranwell.

Eitem 12.b. Llythyr ateb (20/7/2022) yn rhoi gwybod mae'r llythyr am Green Lane, Bwlch Goriwared wedi ei anfon ymlaen i Peiriannydd Ardal Meirionnydd.

Eitem 12.a. Llythyr ateb (26/7/2022) oddi wrth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gyda chopi o 'Local Government, England and Wales. Changes in local government areas. The Merionnydd (Communities) Order 1984'.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i Karen, Peredur, Gerallt a Llion.

Anfonwyd y llythyr (28/7/2022) ymlaen i Guthrie, Jones & Jones gan obeithio fod y ddogfen yr un oedd ei angen i gwblhau gwaith o drosglwyddo enw'r Cyngor i Ymddirieddwr Neuadd Llanfachreth.

Llythyr (2/8/2022) oddi wrth Guthrie, Jones & Jones yn rhoi gwybod mae ein cais yn barod i'w yrru i'r Gofrestrfa Dir. Mae ffi o £30 yn daladwy i wneud hyn. Mae ffi Guthrie, Jones & Jones am weithredu ar ein rhan yn £350 + VAT.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i Karen, Peredur, Gerallt a Llion.

Mae angen cofrestru Neuadd Llanfachreth. Mae hwn yn fater dylai gael ei drafod gan yr holl aelodau o'r Cyngor Cymuned.

Anfonwyd llythyr (5/9/2022) i Gadeirydd Pwyllgor Neuadd Llanfachreth yn cefnogi ymdrech y Neuadd i gael grant i adnewyddu'r Neuadd.

Anfonwyd llythyr (21/9/2022) i Guthrie Jones & Jones ynglŷn â Neuadd Llanfachreth a'r tir o'i gwmpas. Mae angen gwybodaeth sy'n profi perchnogaeth neu hawl i'r Neuadd.

7. Gohebiaeth

a. Llythyr (20/7/2022) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod mae cyfle i'r cyhoedd cael gwybodaeth am waith coedwigaeth bydd yn cael ei wneud Coed y Brenin yn 2022/2023. Bydd y cyfarfod ar Medi 8 rhwng 2.00 a 7.00yh

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Roedd Delyth yn y cyfarfod a chafwyd wybod bydd gwaith torri coed yn ardal Brithdir.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 20, 2022

b. Llythyr (25/7/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau ym mis Awst.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (29/7/2022) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd ynglŷn â Timau Tacluso Ardal Ni. Mae gweithlu wedi ei sefydlu ac yn awyddus derbyn ceisiadau am waith sydd angen ei wneud i lanhau a thacluso'r gymuned. Bydd angen roi'r ceisiadau trwy <http://www.gwynedd.llyw.cymru/timtacluso>

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod iddynt mae angen:

1. glanhau arwyddion sydd yn y gymuned a thocio gordyfiant sydd o amgylch yr arwyddion. Cael gwared o'r arwyddion sydd ddim eu hangen e.e. arwyddion 'ysgol'.
2. glanhau y drych sydd wrth gyffordd y ffordd o Penesgynfa, Llanfachreth i ffordd A494. Nid yw'n bosib gweld os oes ceir yn dod o gyfeiriad Dolgellau.

ch. Llythyr (28/7/2022) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am waith bydd yn cael ei wneud ym mis Awst:

1. Ail-wynebu (clytwaith) cyffordd ffordd B4416 Caerynwch i Dolserau Terrace, Brithdir
2. Ail-wynebu (clytwaith) ffordd wrth Llwyn Helm, Brithdir.
3. Newid colofnau golau stryd yn Tai Creamery, Rhydymain.
4. Canllaw pont ar lwybr cyhoeddus wrth Cae Poeth, Abergeirw.

d. Llythyr (1/8/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafniadaeth dros dro ar Ffordd Dosbarth III gyferbyn â ffordd mynediad i Cefn Creuan Uchaf, Rhydymain. Bydd y ffordd ar gau ar 23/8/2022 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Llythyr (17/8/2022) oddi wrth Kerry and Bil, Brithdir Maent yn holi os mae rhan o dir ar gael yn gyffiniau Brithdir i dyfu ffrwythau a llysiau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am syniadau.

Fuodd Delyth mewn cysylltiad â'r cwpwl.

e. Llythyr (30/8/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Cynhadledd Arfer Arloesol bydd yn cymryd lle ar ddydd Mawrth Medi 14, 2022 am 10.00yb – 5.00yh. Bydd y Cynhadledd ar Zoom. Amgáu mae agenda ffurflen archebu.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 20, 2022

Llythyr (9/9/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod ni fydd Cynhadledd Arfer Arloesol, digwyddiadau hyfforddiant na Chyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a drefnwyd. Mae hyn oherwydd cyfnod o alaru yn dilyn marwolaeth y Frenhines Elizabeth II.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

f. Llythyr (25/8/2022) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith gosod dwy giat i gerddwyr ar lwybr cyhoeddus ger Tyddyn Moch / Ty Nant.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cefn Gwlad, Cyngor Gwynedd mae angen giat ar ochr ffordd A494 i'r llwybr sy'n arwain i Neuadd Rhydymain.

ff. Llythyr (6/8/2022) oddi wrth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd ynglŷn â 'Ymgynghori ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd' ac yn rhoi gwybod bod yr holiadur ar agor tan ddiwedd Medi 30, 2022. Amgáu mae manylion yr ymgynghoriad.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Cafwyd llythyr a manylion am yr ymgynghoriad ar 27/6/2022. Gweler Cofnodion Gorffennaf 19, 2022.

g. Llythyr (6/9/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd am 7.00yh dydd Mercher Medi 14, 2022 ar Zoom. Amgáu mae'r Agenda, Cofnodion Cyfarfod 29/6/2022 a Chofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 29/6/2022. Amgáu gyda'r llythyr mae link Zoom.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Llythyr (12/9/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae'r cyfarfod wedi cael ei gohirio tan fis Hydref oherwydd amgylchiadau presennol

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

h. Llythyr (9/9/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod: yn unol ag Operation London Bridge mater i gynghorau lleol unigol yw penderfynu gohirio cyfarfodydd oherwydd marwolaeth EM Y Frenhines Elizabeth.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau am eu sylw.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 20, 2022

i. Llythyr (9/9/2022) oddi wrth Cymhorthydd Personol i'r Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd yn amgáu canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod galar cenedlaethol Ei Mawrhydi Elizabeth II.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

j. Llythyr (14/9/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn gofyn a oes gennym sylwadau ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Ymgynghoriad Treth Cyngor Decach'. Os oes eu hanfon i Un Llais Cymru cyn Medi 20.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

l. Llythyr (16/9/2022) oddi wrth Clwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf yn rhoi gwybod cynhelir rali ceir gan y clwb ar nos Sadwrn 1af / bore Sul 2fed o Hydref 2022. Bydd y ceir yn cychwyn o Trawsfynydd tua 11.00yh ac yna ar hyd ffyrdd Meirionydd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ll. Llythyr (16/9/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am holiadur gan Cymdeithas Llywodraeth Leol / Un Llais Cymru i gynghorau cymuned a thref i asesu beth ydy capasiti a gallu digidol eu hardal. Maent angen yr holiadur wedi ei gwblhau erbyn Hydref 7, 2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (28/7/2022 a 2/9/2022) yn rhoi gwybod am eu cyfarfod blynyddol gyda chynghorau cymuned a thref bydd yn cael ei gynnal gyda dewis o 25/10/2022 neu 27/10/2022 am 7.00 – 8.15yh. Amgáu mae agenda. Mae'r cyfarfod ar Zoom ac os am fod yn bresennol mae rhaid cofrestru gyda'r Parc.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Bydd Delyth, Karen a Peredur yn y cyfarfod.

b. Cais cynllunio NP5/54/210E. Cais ôl-weithredol i gadw dwy system gwresogi ffynhonell ddaearol o fewn cwrtil Adeilad Rhestredig Gradd II. Caerynwch, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (8/8/2022).

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 20, 2022

c. Cais cynllunio NP5/54/562A. Adeiladu estyniad i annedd, gosod paneli ffotofoltaig a'r do'r annedd, codi lefel to'r garej bresennol drwy ychwanegu to crib a gosod paneli ffotofoltaidd ar y to, a gosod cladin rendrad wedi'i insiwleiddio'n allanol i waliau yr annedd a garej. Heddwch, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (9/9/2022).

ch. Cais cynllunio NP5/54/LB194C. Dileu Amod 3 (Rhestr drws), 4 (Rhestr atgyweirio), 6 (Manylion y grisiau mewnol newydd arfaethedig), 7 (Manylion cyffyrdd unrhyw barwydydd newydd gyda strwythur presennol y to), ac amrywio Amod Rhif 5 (Manylion y leinin sych arfaethedig), 8 (Sampl o lechi ar gyfer ail-doi arfaethedig), a 9 (Manylion allanol unedau neu offer echdynnu) ynghlwm i Ganiatâd Adeilad Rhestredig NP5/54/LB194A dyddiedig 03/03/2022. Ysgubor Cae'r March, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (9/9/2022).

d. Anfonwyd llythyr (25/8/2022) i'r aelodau yn rhoi gwybod sut i gael manylion ceisiadau cynllunio'r Parc:

Parc Cenedlaethol Eryri - Cynllunio a Datblygu - Chwilio Ceisiadau Cynllunio - Chwilio Ceisiadau Cynllunio - Cyfeirnod cynllunio: NP5/.../... - Chwilio - NP5/.../... Rydych wedi dod at fanylion y cais.

dd. Penderfynwyd gwneud ymoliadau gyda'r Parc pam nad ydynt yn anfon ini eu penderfyniad ar geisiadau cynllunio fel roeddynt yn ei wneud tan ddiweddar.

9. Materion Ariannol

a. Llythyr (30/7/2022) oddi wrth Cerebral Palsy Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

b. Llythyr (17/8/2022) oddi wrth Gofal Canser Tenovus. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

c. Llythyr (10/9/2022) oddi wrth Hospices Plant Tŷ Gobaith. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 20, 2022

ch. Llythyr (30/7/2022) oddi wrth Merched y Wawr Rhydymain bydd yn dathlu 40 mlynedd o gymdeithasu a chwrdd â ffrindiau ym mis Hydref eleni. Maent angen cymorth ariannol tuag at ddathliad teilwng o'r achlysur.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi £50.

d. Llythyr (26/8/2022) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesert £6,000 yn ein cyfrif ar 29/8/2022 Taliad am hanner blwyddyn.

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/7/2022: £1,141.70.
Balans yn y banc ar 29/7/2022: £7,656.57. (29/7/2021: £6,023.70.).

e. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/8/2022: £1,141.85.
Balans yn y banc ar 29/8/2022: £7,455.25. (29/8/2021: £11,895.90).

10. Archwilio

11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Llythyr (14/8/2022) oddi wrth Delyth gyda dogfen 'Diweddariad maes ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr (Haf 2022)'. Mae'r ddogfen yn rhoi manylion mae Llywodraeth Cymru, yn cyd-weithio gyda Cyngor Gwynedd, i gael rheolaeth well ar ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr ar faterion cynllunio, trethi a thrwyddedu. Bydd hyn yn gwella sefyllfa i bobl leol cael cartrefi fforddiadwy yn eu cymuned.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (26/8/2022) oddi wrth Delyth gyda gwybodaeth am gyrsiau Un Llais Cymru bydd yn cael eu cynnal mis Awst / mis Medi.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (8/9/2022) oddi wrth Gweithiwr Cymorth Ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid, Dalgylch Ysgol Godre'r Berwyn ac Ysgol Bro Idris. Maent angen llogi neuadd bentref am gyfnod o wythnosau i gael nosweithiau gweithgareddau i bobl ifanc .

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd mai mater i'r neuaddau yw hyn.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MEDI 20, 2022

Mae Delyth wedi cyfarfod a Llio (y Swyddog) ac yn gobeithio bydd y Cyngor Sir yn rhoi bob cefnogaeth iddi gynnal clybiau ieuenctid traddodiadol a syniadaeth newydd yn yr ardal. Mae swyddi heb ei llenwi ar gyfer rhai i weithio yn y clybiau ieuenctid (rhai oriau bob wythnos yn y nos). Os oes gan rywun wybodaeth am unigolion sydd eisiau ceisio am y swyddi?

Anfonodd Delyth ei sylw i'r aelodau.

ch. Mae Openreach yn gosod broadband yn ardal Brithdir ac mae ymdrech yn cael ei wneud i gysylltu pawb yn yr ardal.

d. Mae gan Cyngor Gwynedd cynllun Tai Teg sy'n cynnig morgeisi i bobl sydd angen brynu tai.

dd. Mae ymgynghoriaeth ar drethi'r cyngor a threthi teithiwyd.

e. Bydd cwmni Seashells yn cynorthwyo Cyngor Gwynedd i roi gwasanaeth gofal i'r henoed yr ardal yn eu cartrefi. Maent yn cael anhawster cael staff yn enwedig siaradwyr Cymraeg.

12. Materion yr Aelodau

a. Mae angen trwsio mainc sydd yn Llanfachreth.

Penderfynwyd gofyn i Mr Gwynfor E. Jones, 1 Dalar Las, Llanfachreth am bris i drwsio'r fainc.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen glanhau y grid ar ffos sydd wrth giat terfyn Doluwchadda, ffordd Bwlch Goriwaered, Llanfachreth
